

## **Asesiad Dyfarnu Sefyllfa – Canllawiau Pellach**

### **Trosolwg**

Nod yr Asesiad Dyfarnu Sefyllfa yw ein helpu i ddeall sut y byddech yn ymddwyn o bosibl mewn rhai sefyllfaoedd gwaith. Bydd hefyd yn helpu i sicrhau bod y rôl a ddewiswyd gennych yn addas i chi.

Yna bydd yr asesiad yn rhoi amrywiaeth o senarios gwahanol i chi y gallech eu hwynebu yn y rôl.

Ar gyfer pob senario, byddwch yn cael pedwar opsiwn gwahanol ar gyfer sut y gallech ymateb.

Mae'n rhaid i chi ddewis yr opsiwn GORAU a'r opsiwn GWAETHAF ar gyfer y senario yn eich barn chi.

### **Cwestiwn Enghreifftiol**

Mae cwestiwn enghreifftiol i'w weld isod er mwyn dangos y math o gwestiwn y gallech ei gael, ac er mwyn rhoi canllawiau ar sut i nodi eich ymatebion.

I ddechrau, gofynnir i chi ddewis eich opsiwn 'GORAU' o'r ymatebion sy'n cael eu darparu.

Which is the **best** option?


**Question**

You have a new line manager, who you are keen to meet with. They seem really busy, however, and they haven't made much of an effort to get to know you. What do you do?

- Ask a colleague for advice on the best way to proceed.
- Remind your manager that you're keen to spend some time with them and ask when a suitable time would be.**
- Send your manager an email meeting invite.
- Do nothing. Your manager will arrange to meet you when they are less busy.

Yn yr enghraifft a ddangosir, mae'r ymgeisydd wedi dewis yr opsiwn, 'Atgoffa eich rheolwr eich bod yn awyddus i dreulio rhywfaint o amser gydag ef a gofyn pryd fyddai'n gyfleus i chi wneud hynny.', fel yr opsiwn 'GORAU'.

Bydd yr opsiwn 'GORAU' a ddewiswyd gennych yn diflannu a bydd gofyn i chi nodi'r opsiwn 'GWAETHAF' yn eich barn chi o'r tri datganiad sydd ar ôl.



The screenshot shows a survey question in a purple box on the left and three response options in white boxes on the right. The question asks what to do about a new line manager who is busy. The options are: ask a colleague for advice, send an email meeting invite, or do nothing.

**Question**

You have a new line manager, who you are keen to meet with. They seem really busy, however, and they haven't made much of an effort to get to know you. What do you do?

Of the remaining three statements, which is the **worst** option?

Ask a colleague for advice on the best way to proceed.

Send your manager an email meeting invite.

Do nothing. Your manager will arrange to meet you when they are less busy.

Yn yr enghraifft a ddangosir, mae'r ymgeisydd wedi dewis yr opsiwn, 'Gwneud dim. Bydd eich rheolwr yn trefnu i gyfarfod â chi pan na fydd mor brysur', fel yr opsiwn 'GWAETHAF'.

Mae'n rhaid i chi adael y ddau opsiwn sydd ar ôl heb eu marcio.

Os byddwch yn newid eich meddwl am unrhyw gwestiwn, mae opsiwn i ddewis 'Yn ôl' a gallwch newid eich ymateb drwy ddewis opsiwn arall.

Mewn rhai achosion, efallai y byddwch yn teimlo bod mwy nag un ymateb gorau neu waethaf, neu y byddech chi'n gwneud rhywbeth hollol wahanol. Fodd bynnag, mae'n rhaid i chi gwblhau pob cwestiwn, gan ddewis ateb gorau a gwaethaf o'r opsiynau sydd ar gael.

Ni chaiff yr asesiad ei amseru, ond dylai gymryd tua 20 munud i'w gwblhau.

Ni fydd angen unrhyw wybodaeth na phrofiad blaenorol arnoch er mwyn cwblhau'r asesiad.

Mae asesiadau ar wahân wedi cael eu datblygu ar gyfer pob un o'r rolau sy'n cael eu llenwi ar gyfer Cyfrifiad 2021; mae hyn er mwyn sicrhau bod yr asesiad yn berthnasol i bob rôl. Mae hyn yn golygu os byddwch wedi gwneud cais am fwy nag un rôl y bydd angen i chi gwblhau asesiad ar wahân ar gyfer pob un.

## Sefyll yr Asesiad Dyfarnu Sefyllfa

Caiff yr Asesiad Dyfarnu Sefyllfa ei sefyll ar lein.

Eich atebion chi eich hun y dylech eu rhoi yn yr asesiad; ni ddylech ofyn am gymorth gan neb arall.

Mae'r asesiad wedi'i ysgrifennu yn Saesneg yn unig.

Mae'r Asesiad Dyfarnu Sefyllfa yn gweithio ar y rhan fwyaf o borwyr a systemau gweithredu modern ac, er y dylai weithio ar ffonau clyfar neu lechi, rydym yn argymhell defnyddio dyfais â sgrin fwy. Os nad yw eich porwr wedi'i gefnogi, bydd yr asesiad yn dweud wrthyfych am roi cynnig ar borwr arall.

Ceisiwch beidio â chau'r porwr wrth sefyll yr asesiad. Os byddwch yn gwneud hynny, byddwch yn gallu ei ailagor yn yr un man. Os byddwch yn colli cysylltiad â'r rhyngwyd, byddwch yn gallu parhau â'r asesiad o'r un man ar ôl i chi ailgysylltu. Fodd bynnag, yn ddelfrydol, dylech gwblhau'r asesiad ar un tro.

## **Paratoi**

Pan gewch eich gwahodd i sefyll yr asesiad, dylech geisio gwneud hynny cyn gynted â phosibl, fel bod gennych amser i ddatrys unrhyw broblemau technegol neu broblemau mynediad cyn y dyddiad cau. Dylech anfon unrhyw ymholiadau neu geisiadau am help o leiaf ddau ddiwrnod gwaith cyn dyddiad cau yr asesiad er mwyn gwneud yn siŵr y cewch ymateb.

Cyn i chi ddechrau:

- Dewch o hyd i le tawel heb unrhyw beth a all dynnu eich sylw.
- Gwnewch yn siŵr eich bod yn darllen holl gyfarwyddiadau'r asesiad yn ofalus.
- Atebwch bob cwestiwn.
- Bydd angen bod gennych gysylltiad sefydlog â'r rhyngwyd drwy gydol yr asesiad.
- Ceisiwch sefyll yr asesiad pan fyddwch yn teimlo eich bod wedi ymlacio, er ei bod yn naturiol teimlo ychydig yn nerfus.
- Er na chaiff yr asesiad ei amseru, rydym yn argymhell neilltuo tua 20 munud i'w gwblhau.

## **Canlyniadau'r Asesiad Dyfarnu Sefyllfa ac Adborth**

Caiff eich sgôr yn yr Asesiad Dyfarnu Sefyllfa ei chymharu â grŵp cynrychioliadol o ymgeiswyr sydd hefyd wedi sefyll yr asesiad. Bydd rhaid i chi ennill isafswm sgôr er mwyn llwyddo yn yr asesiad. Caiff y marc llwyddo hwn ei bennu er mwyn sicrhau eich bod yn cyrraedd y safon sy'n ofynnol ar gyfer y rôl rydych wedi gwneud cais amdani.

Ar ôl sefyll yr Asesiad Dyfarnu Sefyllfa, byddwch yn cael adborth yn nodi a ydych wedi llwyddo ai peidio. Am resymau diogelwch, ni allwn roi adborth ar gwestiynau penodol na'ch sgôr gyffredinol.

Dylech gael gwybod am y canlyniad o fewn pythefnos i gwblhau'r prawf.

## **Cwestiynau ac Addasiadau Rhesymol**

Rhowch wybod i ni os oes angen i ni ystyried rhai newidiadau (a elwir yn 'addasiadau rhesymol') fel y gallwch sefyll yr asesiad. Rydym yn ymrwymedig i sicrhau bod y broses yn deg i bawb, felly cysylltwch â ni drwy e-bostio [onshelpdesk@adecco.co.uk](mailto:onshelpdesk@adecco.co.uk) neu drwy ffonio (02039735972) cyn gynted â phosibl. . Mae canllawiau pellach ar addasiadau rhesymol i'w gweld isod.

## **Addasiadau Rhesymol**

Gall y rhan fwyaf o bobl sydd ag anabledd gwblhau profion ar-lein heb unrhyw help. Fodd bynnag, nid yw hyn yn wir i bawb.

Mae'r Swyddfa Ystadegau Gwladol yn ymrwymedig i recriwtio mwy o bobl o grwpiau na chânt eu cynrychioli ddigon ar bob lefel a gwneud yn siŵr bod ein dulliau dethol yn deg.

Yn yr adran hon, byddwn yn dangos i chi sut i ofyn am help ac yn rhoi enghreifftiau o'r mathau o addasiadau sydd ar gael.

### **Anabledd**

Er mwyn cael eich ystyried ar gyfer addasiad rhesymol, mae'n rhaid i chi fod yn anabl yn unol â diffiniadau Deddf Cydraddoldeb 2010. Mae'r Ddeddf yn ystyried eich bod yn anabl os oes gennych nam corfforol neu feddyliol sy'n cael effaith negyddol sylweddol a hirdymor ar eich gallu i wneud gweithgareddau dyddiol arferol.

Mae amrywiaeth eang o gyflyrau lle y gall fod angen addasiadau er mwyn cymryd rhan yn ein proses recriwtio. Caiff addasiadau eu cynnig yn seiliedig ar eich anghenion, a chânt eu hystyried fesul achos unigol.

Mae dyletswydd gyfreithiol arnom i wneud addasiadau rhesymol, felly peidiwch â bod ofn gofyn am help os byddwch yn credu bod angen hynny arnoch.

### **Gofyn am addasiad i asesiad ar-lein**

Os byddwch yn gofyn am addasiad rhesymol, dylech ddarparu'r canlynol:

- y rheswm pam mae angen addasiad arnoch (er mwyn deall unrhyw effeithiau y gallai ei gael ar gwblhau'r asesiad),
- addasiadau posibl a allai helpu,
- addasiadau blaenorol rydych wedi'u cael (os o gwbl).

Ar ôl i chi wneud cais, cysylltwch â ni cyn gynted â phosibl dros y ffôn (020 3973 5972) neu drwy e-bost: [onshelpdesk@adecco.co.uk](mailto:onshelpdesk@adecco.co.uk) i siarad ag aelod o'n Tîm Desg Gymorth er mwyn cadarnhau'r math o addasiad sydd ei angen arnoch.

Os na fydd eich addasiad yn amlwg ar ôl trafod â chi, efallai y byddwn yn gofyn i chi ddarparu dogfennaeth ategol. Gallai hyn gynnwys adroddiadau diagnostig, tystysgrifau meddygol neu ddogfennau tebyg, a bydd yn ein galluogi i nodi'r addasiad mwyaf addas. Mae llun wedi'i sganio neu sgrin lun o'r ddogfennaeth yn iawn. Gwyddom na all pawb ddarparu dogfennaeth o'r fath, felly peidiwch â gadael i hyn eich atal rhag gofyn am help.

Efallai y byddwch yn sylweddoli yn nes ymlaen yn y broses ddethol y dylech fod wedi gofyn am addasiad wrth gyflwyno eich cais cychwynnol. Os bydd hyn yn digwydd, cysylltwch â ni cyn gynted â phosibl dros y ffôn (020 3973 5972) neu drwy e-bost: onshelpdesk@adecco.co.uk.


Os byddwch yn llwyddiannus ac yn cael cynnig swydd, gallwch drafod addasiadau parhaus cyn dechrau gweithio, eto drwy gysylltu â ni ar y rhif ffôn neu gyfeiriad e-bost uchod.

## Hwylus o'r cychwyn

Rydym ni wedi gweithio'n galed i wneud yr Aseidiadau Dyfarnu Sefyllfa yn gwbl hwylus i gynerfwr o bobl â phosibl.

### Ymhlith yr enghreifftiau o addasiadau posibl i'r aseidiadau mae:

- Cymorth ar gyfer darllenwyr sgrin mewn profion ar-lein i ymgeiswyr sydd â nam ar eu golwg. Er enghraifft, ChromeVox, sef y darllenwr sgrin mewnol ar liniaduron neu ddyfeisiau Chromebook.
- Rhoi amser ychwanegol mewn aseidiadau a gaiff eu hamseru i ymgeiswyr sydd â dyslecsia neu namau echddygol (ni fydd hyn yn berthnasol yma, am na fydd yr asesiad yn cael ei amseru).
- Addasiad i gyflwyniad yr asesiad i ymgeiswyr sydd â dyslecsia neu nam ar eu golwg. Gallwch newid ymddangosiad lliw y sgrin drwy ddewis yr eicon 'Gosdiadau' ar frig eich sgrin, fel y dangosir yn y llun isod. Gellir gwneud hyn a'i newid ar unrhyw adeg yn ystod yr asesiad.



- Profion mewn fformat print mawr ar y sgrin i ymgeiswyr sydd â nam ar eu golwg.

Fodd bynnag, nid yw hon yn rhestr gynhwysfawr o bell ffordd, a chaiff addasiadau eu hystyried fesul achos unigol – nid oes addasiad unigol sy'n addas i bawb.